

Beicio / Cycling

www.conwy.gov.uk/cycling
www.denbighshire.gov.uk/cycling
www.gwynedd.gov.uk/cycling

Trafnidiaeth Gyhoeddus / Public Transport

Traveline Cymru T: 0871 200 22 33
www.traveline-cymru.info

Ymholiadau National Rail / National Rail Enquiries

T: Cymraeg 0845 60 40 500 / 08457 48 49 50
www.nationalrail.co.uk

Gwybodaeth Twristiaid / Tourist Information


Canolfan Groeso Llandudno / Llandudno Tourist Information Centre, Adeilad y Llyfrgell / Library Building, Stryd Mostyn / Mostyn Street, Llandudno. T: 01492 577577
E-bost / Email: llandudnotic@conwy.gov.uk

Canolfan Groeso Conwy / Conwy Tourist Information Centre, Adeiladau'r Castell / Castle Buildings, Conwy. T: 01492 592248
E-bost / Email: conwytic@conwy.gov.uk

www.visitconwy.org.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy / Countryside and Rights of Way Service

Yr Heath / The Heath, Ffordd Penmaenmawr / Penmaenmawr Road, Llanfairfechan, Conwy LL33 0PF. T: 01492 575200 / 575290
www.conwy.gov.uk/cefn gwlad
www.conwy.gov.uk/countryside
E-bost / Email: cg.cs@conwy.gov.uk



Swyddfa Gogledd Cymru LICC (llun: Llywodraeth Cynulliad Cymru)
WAG North Wales Office (photo: Welsh Assembly Government)

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Sustrans gyda chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru

This leaflet has been produced by Sustrans with the support of Conwy County Borough Council, the Sports Council Wales and the Welsh Assembly Government



Bwrdeistref Sirol Conwy Conwy County Borough

Llanfairfechan - Bae Cinmel
Llanfairfechan - Kinmel Bay

Sustrans a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

Sustrans yw elusen cludiant cynaliadwy flaenaf y DU, yn gweithio ar brosiectau ymarferol fel y gall pobl ddewis teithio mewn ffyrdd a fydd yn llesol i'w hiechyd a'r amgylchedd. Mae'r elusen wrth wraidd llawer o brosiectau arloesol yn cynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, dros ddeuddeg mil o filltiroedd o lonydd tawel, rhydd o draffig a llwybrau cerdded a beicio ar y ffordd o amgylch y DU. Ni yw'r elusen sy'n gwneud gwahaniaeth heddiw fel bod pawb yn gallu byw mewn gwell yfory.

Cefnogwch Sustrans. Ymunwch â'r Mudiad.

Sustrans and the National Cycle Network

Sustrans is the UK's leading sustainable transport charity, working on practical projects so people choose to travel in ways that benefit their health and the environment. The charity is behind many groundbreaking projects including the National Cycle Network, over twelve thousand miles of traffic-free, quiet lanes and on-road walking and cycling routes around the UK. We are the charity making a difference today so everyone can live a better tomorrow.




Support Sustrans. Join the movement.

Am ragor o wybodaeth am lwybrau yn eich ardal, neu ragor am Sustrans a sut i ddod yn Gefnogwr, ewch i'r wefan neu ffoniwch:

For more information on routes in your area, or more about Sustrans and how to become a Supporter, visit or call:

www.sustrans.org.uk
0845 113 00 65

© Hawffraint y Goron (2010) 100015871 - Llun clawr: © CBS Conwy
© Crown copyright (2010) 100015871 - Cover photo: © CCBC
Elusen Gofrestredig rhif 326550 (Lloegr a Chymru) SCO39263 (Yr Alban)
Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SCO39263 (Scotland)



Cod Beicio Da**Ufuddhewch i reolau'r ffordd****Byddwch yn gwrtais**

- Ildiwch i gerddwyr
- Cofiwch fod rhai pobl yn drwm eu clyw neu â nam ar eu golwg
- Pan fydd defnyddwyr cadair olwyn neu farchogwyr ildiwch iddynt
- Canwch gloch neu defnyddiwch eich llais yn gwrtais i rybuddio eich bod yn dod

Gofalwch am yr amgylchedd

- Allwch chi gyrraedd dechrau eich taith ar feic neu gludiant cyhoeddus?
- Dilynwch y Cod Cefn Gwlad; yn arbennig, parchwch gnydau, da byw a bywyd gwyllt ac ewch â'ch sbwriel adref

Edrychwch ar ôl eich hunan

- Byddwch yn arbennig o ofalus wrth gyffyrdd, wrth feicio i lawr ellydd neu pan fo wyneb y ffordd neu'r llwybr yn rhydd
- Mewn ardaloedd anghysbell gwnewch yn siwr fod gennych fwyd, offer trwsio beic, map a dillad tywydd gwlyb
- Cadwch eich beic yn addas i'r ffordd; defnyddiwch olau pan fo gweledd yn wael
- Ystyriwch wisgo helmed a dillad hawdd eu gweld

Good Cycling Code**Obey the rules of the road****Be courteous**

- Give way to pedestrians
- Remember that some people are hard of hearing or visually impaired
- Where there are wheelchair users or horse riders please give way
- Ring a bell or politely call out to warn of your approach

Care for the environment

- Can you reach the start of your journey by bike or public transport?
- Follow the Country Code; in particular, respect crops, livestock and wildlife and take litter home

Look after yourself

- Take special care at junctions, when cycling downhill and on loose surfaces
- In remote areas carry food, repair kit, map and waterproofs
- Keep your bike roadworthy; use lights in poor visibility
- Consider wearing a helmet and conspicuous clothing

Beicio yw un o'r ffyrdd gorau i weld arfordir ardderchog ac atyniadau rhagorol Sir Conwy, ac ar yr un pryd gadw'n iach a helpu'r amgylchedd.

Mae mwyafrif y llwybrau yn yr ardal yn ddi-draffig, gan roi cyfle delfrydol ar gyfer beicwyr newydd a rhai sydd newydd ddechrau yn ogystal â beicwyr brwd. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybrau hefyd yn cynnig cyfleuster ardderchog ar gyfer cerddwyr a defnyddwyr cadair olwyn neu gerbyd symudedd.

Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar hyd Arfordir Gogledd Cymru (Llwybr Cenedlaethol 5) yn cysylltu'r Rhyl, Bae Cinnel, Abergele, Bae Colwyn, Llandrillo yn Rhos, Llandudno a Chonwy ac mae bron yn gyfan gwbl ddi-draffig. Mae'r llwybr yn gadael Y Rhyl dros y Bont Las ac yn ymuno â'r ffordd am ychydig cyn ailymuno â'r promenâd ym Mae Cinnel ac yn mynd yr holl ffordd ar hyd yr arfordir i Abergele, yna ymlaen i Fae Colwyn a Llandrillo yn Rhos. Ar y llwybr byddwch yn mynd heibio i nifer o draethau hyfryd yn ogystal â chael cyfle i weld fferm wynt ar y môr Fflatiau'r Rhyl, Castell Gwrych a phier Bae Colwyn.

Yn cysylltu Traeth y Gorllewin Llandudno i Ddeganwy a Chonwy ceir Llwybr Aber Afon Conwy sydd newydd ei gwblhau, ac oddi arno ceir golygfeydd godidog o Afon Conwy gyda Chastell Conwy, Safle Treftadaeth Byd, yn gefnlen iddi. Mae'r llwybr hwn hefyd yn cysylltu Gwarchodfa RSPB Conwy a Chyffordd Llandudno. Mae nifer o Warchodfeydd Natur Lleol Conwy yn hygyrch o'r rhwydwaith cerdded a beicio ac yn fannau delfrydol am seibiant ar y daith.

Mae Llwybr Cenedlaethol 5 yn ymestyn tua'r gorllewin o Gonwy i drefi glan môr Penmaenmawr a Llanfairfechan. Parhewch i'r cyfeiriad hwn ar draws ffin y sir i Abergwyngregyn, gyda'i raeadrau enwog a pharhewch drwy Wynedd ar hyd RhBC 5 i Fangor.

Cysylltir llwybrau lleol i'r llwybr arfordirol ym Mae Cinnel, gan gysylltu drwy Dowyn, Abergele a Chyffordd Llandudno. Rhydd y llwybrau hyn ffyrdd diogel a chynaliadwy i deithio o amgylch y cymunedau ac mae manau parcio beiciau wedi eu lleoli yn y rhan fwyaf o ganol y trefi a'r pentrefi.

Mae cysylltiadau yn Llandudno a'r cyffiniau i'w datblygu yn dyfodol agos er mwyn rhoi dewisiadau diogel i feicio o amgylch y gyrchfan glan môr enwog hon gyda'i hatyniadau niferus.

Cycling is one of the best ways of getting to see Conwy's superb coastline and wonderful attractions, whilst also staying healthy and helping the environment.

The majority of routes in the area are traffic-free paths, providing ideal opportunities for new and novice cyclists as well as committed enthusiasts. Most of the routes also provide an excellent facility for walkers and wheelchair or mobility buggy users.

The National Cycle Network along the North Wales Coast (National Route 5) links Rhyl, Kinmel Bay, Abergele, Colwyn Bay, Rhos on Sea, Llandudno and Conwy and is almost entirely traffic-free. The route leaves Rhyl via the Blue Bridge and joins the road for a short while before it rejoins the promenade in Kinmel Bay and runs right along the coast to Abergele, then onto Colwyn Bay and Rhos on Sea. On the route you will pass a number of wonderful beaches as well as see the Rhyl Flats offshore windfarm, Gwrych Castle and Colwyn Bay pier.

Linking Llandudno's West Shore to Deganwy and Conwy is the recently completed Conwy Estuary Trail that provides stunning views of the River Conwy with the World Heritage Site of Conwy Castle acting as a backdrop. This route also provides a link to the Conwy RSPB Reserve and Llandudno Junction. Many of Conwy's Local Nature Reserves are accessible from the walking and cycling network and provide an ideal spot for a rest on route.

National Route 5 extends westwards from Conwy to the seaside towns of Penmaenmawr and Llanfairfechan. Continue in this direction across the county boundary to Abergwyngregyn, with its famous waterfalls and continue through Gwynedd on NCR 5 to Bangor.

Local routes are linked to the coastal route at Kinmel Bay, linking through to Towyn, Abergele and Llandudno Junction. These routes provide safe and sustainable ways of travelling around the communities and cycle parking is located in the majority of town and village centres.

Links in and around Llandudno are due to be developed in the near future to provide safe options to cycle around this famous seaside resort with its many attractions.

- Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar y ffordd
National Cycle Network on road route
- Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol di-drafft
National Cycle Network traffic-free route
- Llwybrau cyswllt
Linking route
- Llwybr Beicio arfaethedig
Proposed route
- Llwybr gerdded
Walking route
- Siop feiciau
Bike shop
- Gwybodaeth twristiaid
Tourist information
- Tafarn
Public house
- Siopau lleol
Local shops
- Caffi
Café
- Swyddfa bost
Post office
- Toiledau
Toilets
- Gorsaf reilffordd
Railway station
- Parcio
Parking
- Gofal
Take care
- Atyniad twristiaid
Tourist attraction
- Amgueddfa
Museum
- Gwarchodfa natur
Nature Reserve
- Sinema / Theatr
Cinema / Theatre
- Canolfan hamdden
Leisure Centre
- Ffair
Fun Fair
- Swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government office
- Gwobr Glan Môr 2010
Seaside Award 2010
- Gwobr Arfordir Glas 2010
Green Coast Award 2010
- Gwobr Baner Las 2010
Blue Flag Award 2010



Atgynhychir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawffraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri H awffraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded: 100015871. 2010.

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number: 100015871. 2010.


en-y-Gogarth
at Orme's Head

NGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Ardal a gynhwysir ar y map hwn / Area covered by this map



Abergele – Bae Cinnel / Abergele – Kinmel Bay




Atgynhychir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri H awffraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded: 100015871. 2010.

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number: 100015871. 2010.

Er y cymryd pob gofal wrth gynhyrchu'r canllaw hwn, ni all yr awdur warantu cywirdeb llwyr y wybodaeth sydd ynddo ac nid yw'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wall neu hepgoriad. Ni fydd Sustrans, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy na Chyngor Chwaraeon Cymru yn atebol am unrhyw farwolaeth, anaf personol neu ddifrod i eiddo sy'n deillio o ddefnyddio unrhyw rai o'r llywbrau a nodir yn y canllaw hwn ac eithrio i'r graddau na all atebolwydd gael ei eithrio gan y gyfraith. Cynhyrchwyd y daflen hon gan Sustrans gyda chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Whilst every care has been taken in the production of this guide, the author cannot guarantee the accuracy of the information herein and accepts no responsibility for any error or omission. Sustrans, the Welsh Assembly Government, Conwy County Borough Council and Sports Council Wales shall not be liable for any death, personal injury or damage to property arising from the use of any of the routes indicated in this guide except to the extent that liability cannot be excluded by law. This leaflet has been produced by Sustrans with the support of Conwy County Borough Council, the Sports Council Wales and the Welsh Assembly Government.



Conwy a Chyffordd Llandudno Conwy & Llandudno Junction



Abergele a Phensarn Abergele & Pensarn



Bae Cinnel Kinmel Bay

